# Cyngor Cymuned Llangelynnin Community Council

clerc@cyngor-llangelynnin-council.org.uk
**Clerc:** Jane Jenkins, 2 Talybont, Dolgellau, Gwynedd, LL40 1UA

## Cofnodion y Cyfarfod Blynyddol - Nos Fercher – 13.05.26 7yh yn Y Ganolfan, Llwyngwril

**Presennol:** Geraint Edwards - Cadeirydd (GE), Keith Carroll – Is Gadeirydd (KC), Huw Davies (HD), David Griffiths (DG), Geraint Micah (GM) a Jane Jenkins (Clerc).

1. **Croeso'r Cadeirydd**: Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

   • **Ethol Cadeirydd + Is Gadeirydd Newydd (cynnig ac eilio)**
   Cynghorodd Geraint Edwards y byddai'n hoffi aros yn Gadeirydd am flwyddyn arall gan ei fod yn ymwybodol or materion oedd wedi cael ei dechrau ac oedd yn parhau ac yn dal angen eu datrys. 'Roedd Keith Carroll yn hapus i fod yn Is-Gadeirydd ac roedd yn gwerthfawrogi'r pwyntiau a godwyd gan GE. Er mwyn parhad, dywedodd y byddai'n aros yn Is-gadeirydd am dymor arall, oni bai bod unrhyw un arall eisiau gwneud hynny.

   **PENDERFYNWYD**:
   **Cadeirydd:** Geraint Edwards. Cynnig – **HD** Eilio - **DG**
   **Is-gadeirydd**: Keith Carroll. Cynnig – **HD** Eilio **- DG**

   Darparodd y Clerc ffurflen Datganiad Swydd i'r ddau i'w llenwi.

   • **Ethol Cynrychiolwyr - (cynnig ac eilio)**
   **1.** Un Llais Cymru (1) - Megan Griffiths
   **2.** Pwyllgor "Y Ganolfan" (1) - David Griffiths
   **3.** Pîg yr Allt (1) - Geraint Edwards
   **4.** Heddlu Gogledd Cymru (1)- Ian Williams

   **PENDERFYNWYD:** Cytunwyd yn unfrydol bod dim newid i fod i'r holl gynrychiolwyr.

2. **Ymddiheuriadau:** Megan Griffiths, Cath Severn, Ian Williams a Louise Hughes – Cynghorydd Sirol.

2.a **Datgan Diddordeb**: Dim.

3. **Cymeradwyo Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf:** cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 08.04.26 yn gywir.
   Nododd HD y dylai pwynt 7.1 i fod i ddarllen **HD** – ddim HC.
   **Cynnig:** HD **Eiliwyd:** KC **Arwyddwyd:** GE

4. **Materion yn codi o'r Cofnodion Blaenorol – 08.04.26**

**1. Diweddariad y Comisiwn Elusennau**
Clerc heb glywed dim byd pellach gan Y Comisiwn Elusennau hyd yn hyn. Awgrymwyd y dylai'r Clerc anfon e-bost iddynt i gael ei hymateb diweddaraf.

**GWEITHREDU:** Y Clerc i anfon e-bost pellach at Y Comisiwn Elusennau a nodi'r mater ar agenda Mis Mehefin.

**2. Meinciau (Y Crynwyr)**
Darparodd DG ddyfynbris i'r Clerc ar gyfer y fainc y cytunwyd arni er mwyn ysgrifennu siec. Gofynnwyd i'r Clerc fynd â'r dyfynbris a siec i Wynnstay yn Nolgellau i'w talu, ac yna byddai anfoneb yn cael ei chyhoeddi. Yna

*RGE*

byddai'r dosbarthiad yn cael ei drefnu'n uniongyrchol gyda DG. Dywedodd GE ei fod ef, HD a DG wedi edrych ar ddulliau o osod y meinciau a bod pawb wedi cytuno i ddefnyddio bolltau dur a chadwyn. Dywedodd GE hefyd ei fod angen dau fag o sment/postconcrit (Tua £20) ar gyfer gosod y meinciau a chadarnhaodd HD ei fod wedi edrych ar brisiau ar gyfer bolltau dur a chadwyn (Tua £30). Awgrymodd GE osod y meinciau tua diwedd Mis Mai.

**PENDERFYNWYD:** Cytundeb unfrydol y dylai GE a HD ddod o hyd i'r eitemau i osod y meinciau, ac adennill y gost ar ôl darparu derbynebau i'r Clerc.

**3. Cyfrifon Banc a Bancio Ar-lein**

Dywedodd y Clerc ei bod hi a GE wedi bod yn ymchwilio y mater yma. Mae Barclays bellach wedi dechrau codi tâl am gyfrifon cymunedol (£8.50 y mis ar ôl y deuddeg mis cyntaf), felly mae HSBC bellach wedi cael ei cysylltu. Nid oes unrhyw ffioedd ar eu cyfrif ac eithrio sieciau ac arian parod a delir i mewn. Roeddent wedi awgrymu 3-4 llofnodwr ac roeddent yn hapus i gyfarfod â'r Clerc yn unig neu'r holl lofnodwyr i sefydlu'r cyfrif newydd a hefyd edrych ar gyfrif cynilo ar gyfer arian a roddwyd o'r neilltu. Roeddent yn obeithiol y gallent drosglwyddo popeth yn uniongyrchol o Nat West, a fyddai'n arbed amser a gwaith.

**PENDERFYNWYD:** Cytundeb unfrydol i drosglwyddo'r cyfrif cyfredol i HSBC ac agor cyfrif cynilo ar yr un pryd.

GE, KC a'r Clerc fydd y llofnodwyr i ddechrau er bod angen un arall yn ddelfrydol ond gellid ychwanegu un arall yn ddiweddarach. Byddai taliadau ar-lein yn llofnodwyr deuol.

**GWEITHREDU:** Y Clerc i gysylltu â HSBC a threfnu apwyntiad yn Nolgellau sy'n gyfleus i bawb i gallu agor y cyfrif a chwblhau ID ac ati.

**4. Hysbysfyrddau (Y Ganolfan a Rhoslefain)**

Trafodwyd cyflwr hysbysfyrddau'r ochr allan Y Ganolfan yn Llwyngwril ac yn Rhoslefain. Teimlwyd nad oedd angen yr hysbysfwrdd ochr allan Y Ganolfan gan fod dogfennau wedi'u gosod ar yr hysbysfwrdd y tu mewn i'r Ganolfan - a oedd mewn cyflwr llawer gwell. Roedd angen sylw i gefn hysbysfwrdd Rhoslefain a chynigiwyd syniadau ynghylch sut y gellid gwneud hyn. Dywedodd HD y byddai Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Y Ganolfan yn fuan a byddai'r hysbysfwrdd allanol yn cael ei drafod. Os yw penderfyniad Pwyllgor Y Ganolfan yn adlewyrchu penderfyniad y Cyngor Cymuned, bydd yr hysbysfwrdd yn cael ei dynnu lawr, os na , bydd angen i'r Cyngor Cymuned adolygu'r mater eto ym Mis Mehefin.

**PENDERFYNWYD:** Cytundeb unfrydol i dynnu hysbysfwrdd y Cyngor Cymuned o ochr allan Y Ganolfan - yn amodol ar y penderfyniad a wneir gan Bwyllgor Y Ganolfan yn ei Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol.

**GWEITHREDU:** Y Clerc i ail-restru y mater yma ar gyfer cyfarfod Mis Mehefin.

**5. Goryrru**

Trafodaeth bellach ar faterion goryrru o fewn y pentref, yn enwedig wrth y siop. Awgrymodd HD, cyn i ni symud y mater ymlaen, y dylai'r Clerc gysylltu â Chyngor Gwynedd a sefydlu a fyddant yn rhoi caniatâd i *"swyddog heddlu plastig"* gael ei roi â'r ddau bolyn ar y bont gyferbyn â'r siop
(darparodd DG What3Words - erupted.walls.pulse ac anfonodd KC lun ymlaen i'w anfon gyda'r e-bost).

**GWEITHREDU:** Y Clerc i anfon llythyr at yr Adran Briffyrdd, Cyngor Gwynedd.

**5. Gohebiaeth wedi eu derbyn:**

**1. Hysbysiad o archwiliad y Cae Chwarae**
Nodwyd.

**2. Addewid Cwrteisi a Pharch – Un Llais Cymru**
Esboniodd y Clerc beth oedd hyn a darllenodd drwy'r addewid.

**PENDERFYNWYD:** Cytundeb unfrydol i gwblhau, llofnodi a dychwelyd y ffurflen i Un Llais Cymru.

*RGE*

**GWEITHREDU:** Y Clerc i gwblhau a dychwelyd y ffurflen.

**3. Nodyn atgoffa o ddyddiadau hyfforddi Mai – Mehefin 2026**
Nodwyd. Ymdrin â'r hyfforddiant ym mwynt 7h.

6. **Materion Cynllunio**: Dim.

7. **Adroddiad Ariannol**:

**a. Datganiad Ariannol ar gyfer Mis Ebrill 2026**

**PENDERFYNWYD:** Cytunwyd yn unfrydol fel cyfrif cywir.

Y Clerc yn hysbysu'r Cyngor Cymuned bod hawliad TAW hyd at 31.03.26 wedi'i gyflwyno, bod cadarnhad o ail-ddatganiad ar gyfer y Rheoleiddiwr Pensiynau wedi'i gwblhau ac mae Adroddiad ar Daliadau Blynyddol yr Aelodau wedi'i gyflwyno a'i gydnabod gan DBCC.

**b. Anfonebau/Taliadau**
Taliadau – Cyflog a chosta'r Clerc Mis Ebrill, Yswiriant Clirio (premiwm blwyddyn 2 a drafodwyd yn 7.g), Wynnstay (mainc fel yn 4b) a Geraint Micah (torri gwair).

**PENDERFYNWYD:** Llofnodwyd cytundeb unfrydol i dderbyn anfonebau a sieciau.
**GWEITHREDU:** Y Clerc i wneud y taliadau.

**c. Diweddariad ar y Praesept**
Y Clerc yn hysbysu bod taliad wedi'i dderbyn ar gyfer rhan gyntaf y praesept a ddylai fod yn y cyfrif banc erbyn hyn a bydd yn ymddangos ar y datganiad nesaf.

**d. Diweddariad ar yr Archwiliad**

- **Adroddiad Archwilio Mewnol**

  Y Clerc yn hysbysu bod yr Archwiliad Mewnol wedi'i gwblhau. Aelodau wedi mynd drwy'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol cyn i'r ddogfen gael ei llofnodi gan GE ag y Clerc. Mewnosodwyd cyfeirnod y cofnod o 13/05/26. Hysbysodd y Clerc y bydd yr Hysbysiad Archwilio yn barod ar gyfer cyfarfod Mis Mehefin a bod angen iddo fod ar y wefan a'r hysbysfyrddau erbyn canol Mis Mehefin fan bellaf er mwyn rhoi digon o rybudd o'r cyfnod archwilio.

**e. Polisi Hyfforddi Diwygiedig – adolygu a mabwysiadu**
Mae'r Clerc yn cadarnhau bod y gwelliannau a ofynnwyd amdanynt yn y cyfarfod blaenorol wedi'u cynnwys a chadarnhaodd aelodau y Cyngor Cymuned eu bod yn hapus gyda'r gwelliannau hynny.

**PENDERFYNWYD:** Cytundeb unfrydol i dderbyn y gwelliannau a mabwysiadu'r polisi ar gyfer 26-27.
**GWEITHREDU:** Y Clerc i ddiweddaru'r wefan.

**f. Adolygu a mabwysiadu**
Cynllun Bioamrywiaeth S6, Y Gofrestr Asedau a'r Gofrestr Asesu Risg
Clerc yn hysbysu am newidiadau i'r Gofrestr Asedau ac yn hysbysu bod y newidiadau hyn wedi'u nodi ar yr Atodlen Yswiriant. Mae'r Clerc hefyd yn hysbysu bod yr Archwilydd Mewnol wedi awgrymu y dylid cynnal adolygiad o'r Gofrestr Asedau ym Mis Mawrth er mwyn iddi fod yn gwbl gyfredol wrth gwblhau'r ffurflen flynyddol. Aelodau y Cyngor yn ystyried y Gofrestr Asesu Risg ac yn derbyn fel ag y drafftiwyd. Clerc yn mynd drwy Gynllun Bioamrywiaeth S6 ar gyfer 26-27, awgrymwyd ychydig o welliannau ond fel arall cytunwyd fel ag y drafftiwyd.

**PENDERFYNWYD:** Cytundeb unfrydol i dderbyn y gwelliannau a mabwysiadu'r Gofrestr Asedau.
Cytundeb unfrydol i fabwysiadu'r Gofrestr Asedau fel ag y drafftiwyd.
Cytundeb unfrydol i fabwysiadu'r Cynllun Bioamrywiaeth yn amodol ar rai mân welliannau.
Cytundeb unfrydol i weithredu ar awgrym yr Archwilwyr Mewnol a symud y dyddiad adolygu yn flynyddol i Fis Mawrth.

*RGE*

**GWEITHREDU\:** Clerc i wneud y gwelliannau gofynnol i'r Cynllun Bioamrywiaeth a threfnu i'r holl ddogfennau wedi'u diweddaru gael eu rhoi ar y wefan.

**g. Adnewyddu Yswiriant (blwyddyn 2) ac ychwanegiadau**
Clerc yn mynd drwy newidiadau ir polisi i gynnwys y diffibrilwyr a'r newid bach yn y premiwm o tua £7 y flwyddyn. Cynghorwyr yn edrych drwy'r ddogfen, ac roeddent yn hapus gyda'r polisi.
Nododd y Clerc, pe baem yn llwyddiannus gyda'r grant, y byddai angen cynnwys y meinciau ychwanegol a matiau diogelwch y cae chwarae ar yr yswiriant ac ar y Gofrestr Asedau.

**PENDERFYNWYD:** Cytundeb unfrydol i dderbyn yr yswiriant ddiwygiedig ar gyfer 26-27.

**h. Archebu cyrsiau "am ddim" a ddewiswyd**
Cynghorodd y Clerc, er gwaethaf ei e-bost dyddiedig 22/04, nad oedd neb wedi darparu manylion ar gyfer hyfforddiant. Pwysleisiodd fod angen i ni fanteisio ar y cwrs am ddim gan Un Llais Cymru. Cytunwyd ar yr hyfforddiant fel a ganlyn:

Sgiliau Cadeirio – Modiwl 10 - Dydd Llun (08.06.26) - 18.30 – 20.00 ............. **KC a GE**
Cod Ymddygiad – Modiwl 9 - Dydd Mercher (27.05.26) – 14.00 – 15.30 ......**HD**
Cod Ymddygiad – Modiwl 9 - Dydd Mercher (24.06.26) - 18.30 – 20.00 …… **DG**

**GWEITHREDU:** Clerc i archebu y cyrsiau i'r aelodau.

**i. Diweddariad Grant**
Cynghorodd y Clerc fod angen mwy o ddyfynbrisiau mewn perthynas â'r matiau i'r cae chwarae, a oedd bellach wedi'u cael a'u cyflwyno. Cadarnhawyd bod y cais am grant bellach wedi'i gwblhau a disgwylir penderfyniad tua 20.05.2026. Gofynnodd y Clerc a oedd y Cyngor Cymuned yn dymuno paratoi siec ar gyfer PlayQuest fel, os byddai'r cais am grant yn llwyddiannus, y gallai materion symud ymlaen rhwng cyfarfodydd a gwneud y taliad blaendal.

Cynghorodd GE ei fod wedi cael gwybod am y difrod i'r fainc goffa las yn y cae chwarae ac awgrymodd y gallai un o'r tair mainc y gwnaed cais amdanynt o fewn y grant, fod yn fainc bicnic newydd. Cadarnhaodd y Clerc y gallem newid ond y byddai angen i ni sicrhau ei fod yn cael ei nodi a byddai angen i'r Cyngor Cymuned ariannu unrhyw gost ychwanegol a fyddai'n mynd â ni drwy derfyn y grant. Amcangyfrifwyd ar y mwyaf ein bod yn edrych ar £100 arall a byddai'r Clerc yn cael pris.

**PENDERFYNWYD:** Cytundeb unfrydol i baratoi siec yn barod fel y gallai'r Clerc symud y mater ymlaen pe bai'r grant yn llwyddiannus.

8. **Adroddiadau gan y Cynrychiolwyr:** Dim.

9. **Adroddiad y Cynghorydd Sirol:** Dim yn bresennol.

10. **Unrhyw Fater Arall:**

Nododd HD fod ceir yn parcio o flaen y diffibriliwr newydd ger Gwastagoed.

Diolchodd GE i'r Clerc am ei gwaith caled ag amser yn gweithio ar faterion parhaus, ac ar yr Archwiliad.

**Cyfarfod wedi gorffen am 8.45pm**

*RGE*

**<u>Dyddiad y Cyfarfod Nesaf:-  Nos Fercher – 10.06.26 - 7 o'r gloch yn Y Ganolfan, Llwyngwril</u>**

**<u>Arwyddwyd</u>** *R G Edwards*
**Cadeirydd ………………………………………………………………………………………………………… Dyddiad :  10.06.26**

*RGE*